# Blynyddoedd cynnar – astudiaethau achos diogelu

## Astudiaeth achos 1:

Mae Stephen yn gweithio mewn lleoliad cofleidiol yn y pentref lle mae'n byw. Un o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yw Mair, sy'n bump oed ac sydd wedi bod yn mynychu'r lleoliad ers pan oedd hi'n fabi. Mae Mair yn mynychu'r lleoliad cyn ac ar ôl ysgol ac amser llawn yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae Mair yn byw gyda'i rhieni a'i brawd hŷn, Tim, 12 oed, sy'n fab i fam Mair o'i phriodas flaenorol. Mae'r teulu'n byw yn yr un pentref â'r lleoliad. Mae Mair yn gymdeithasol ac yn siaradus iawn, mae'n cyd-dynnu'n dda â'r plant eraill ac yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau yn y lleoliad.

Ar ôl penwythnos yn ystod gwyliau'r ysgol, mae tad Mair yn ei gollwng yn y lleoliad, ond yn hytrach na dilyn ei threfn arferol – tynnu ei chôt a chymryd rhan yn y gweithgareddau sy'n digwydd nid yw Mair am dynnu ei chôt, ac mae'n dweud ei bod yn oer a bod ei breichiau'n brifo. Pan fydd Stephen yn gofyn pam mae'n brifo, mae'n ateb ei bod wedi bwrw yn erbyn dodrefn wrth helpu i dacluso ei hystafell gartref. Mae'n dweud mai bai Tim ydoedd.

Mae Mair yn ymddangos yn dawelach nag arfer am weddill y dydd. Mae Stephen yn sylwi bod arddwrn dde Mair yn ymddangos yn chwyddedig a bod arlliw gwyrdd iddo. Mae Stephen yn hysbysu hyn ar lafar i reolwr y lleoliad sy'n cytuno y dylai Stephen siarad â rhieni Mair am yr hyn a ddigwyddodd i'w braich.

Yn y pen draw, daw mam a thad Mair i'w chasglu ac mae Stephen yn gofyn sut wnaeth Mair frifo ei hun. Maen nhw'n dweud ei bod hi bob amser yn drwsgl ac mae'n rhaid ei fod wedi digwydd pan oedd hi'n helpu i fwydo'r ieir yn eu gardd y diwrnod cynt. Mae Stephen yn herio hyn gan ddweud bod y clais yn edrych yn hŷn na hynny a bod Mair wedi dweud mai Tim oedd yn gyfrifol. Mae rhieni Mair yn mynd yn amddiffynnol ac yn digio wrth ddweud wrth Stephen eu bod yn fwy nag abl i ofalu am eu merch.

Mae Stephen bellach yn pryderu y gallai Mair fod wedi cael ei cham-drin. Mae'n ysgrifennu hysbysiad fel a ganlyn:

*Ddydd Llun yr wythnos hon, cyrhaeddodd Mair Jones â'i braich wedi chwyddo â chlais gwael arni. Rwy'n credu bod ei brawd wedi bod yn ymladd gyda hi eto gan y gall fod yn eiddigeddus o'r sylw ychwanegol y mae Mair yn ei gael gan ei rhieni ac mae'n aml mewn trafferth gyda'r heddlu. Siaradais â'i rhieni ac aethon nhw'n amddiffynnol a rhuthro allan mewn tymer. Maen nhw fwy na thebyg yn trio cuddio'r ffaith nad ydyn nhw'n medru gofalu am Mair yn iawn mwyach, ond maen nhw am gadw'r teulu gyda'i gilydd a pheidio â chynnwys neb arall.*

- Ydy Stephen wedi gwneud cyfres o dybiaethau?
- Ydy e wedi dangos rhagfarnau tuag at bobl ac yn defnyddio gwybodaeth am Tim nad yw'n cael ei chefnogi gan unrhyw ffynhonnell?
- Ydy e wedi bod yn wrthrychol neu'n ffeithiol ac ydy e mewn perygl o gael ei gyhuddo o ragfarn, amhroffesiynoldeb a hyd yn oed enllib gan ei fod yn gwneud cyhuddiadau?

Mae Stephen yn iawn i boeni am yr anaf a'r ddau hanes gwahanol am sut y digwyddodd, ynghyd ag ymddygiad anarferol Mair ac ymateb ei rhieni. Roedd Stephen wedi gweithredu'n gywir wrth beidio â holi Mair ormod a gwirio gyda'i reolwr cyn siarad â'i rhieni.

Roedd Stephen hefyd yn gywir wrth beidio â rhannu ei amheuon gyda neb ond y rheolwr. Roedd yn adnabod yr arwyddion posibl o gam-drin ac wedi hysbysu amdanynt yn briodol ar unwaith gan ddilyn hyn gyda chofnod ysgrifenedig. Byddai ei gofnod yn well pe bai wedi darllen rhywbeth fel hyn:

*Ddydd Llun yr wythnos hon, daeth Mair Jones i'r lleoliad drwy'r dydd. Roedd hi'n gwisgo côt aeaf drwchus y gwrthododd ei thynnu gan ddweud bod ei braich dde'n boenus. Nid oedd yn siarad llawer ac nid oedd am ymuno ag unrhyw weithgareddau chwarae. Mae hyn yn anarferol gan ei bod gan amlaf yn awyddus i ymuno yn y chwarae. Gallwn weld bod ei harddwrn dde yn ymddangos yn chwyddedig ac roedd yna farc â gwawr wyrdd iddo, fel clais. Pan ofynnwyd iddi beth oedd wedi digwydd, dywedodd ei bod wedi brifo ei braich yn tacluso ei hystafell y diwrnod cynt ac mai bai ei brawd Tim ydoedd.*

A roddodd Stephen hysbysiad cywir?

Ar ôl trafod hyn gyda'm rheolwr, fe gytunon ni y dylwn siarad â rhieni Mair a ddywedodd wrthyf eu bod yn meddwl ei bod wedi brifo ei hun ddoe yn bwydo'r ieir yn yr ardd a'i bod yn drwsgl. Aethant yn amddiffynnol ac yn ddig gan ddweud eu bod yn fwy nag abl i ofalu am eu merch. Gadawsant gyda Mair ac roedd hi'n ymddangos yn awyddus i fynd adref gyda nhw. Rhoddais ddiweddariad i'm rheolwr ac rydw i wedi trosglwyddo'r digwyddiad i swyddog diogelu dynodedig ein lleoliad.

- Pam mae'n bwysig hysbysu a chofnodi mewn perthynas â diogelu?
- Rhestrwch yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi
- Sut byddech chi'n cyflwyno hysbysiad ar eich pryderon yn unol â gweithdrefnau polisïau eich lleoliad?

## Astudiaeth achos 2:

Mae Nisha yn chwech oed. Mae ganddi anabledd corfforol, sy'n golygu ei bod yn aml yn syrthio drosodd yn hawdd ac yn cleisio – mae hi eisiau chwarae tic gyda ffrindiau. Mae Nisha yn y feithrinfa ac mae'n bedair oed. Mae'n gweld y plant eraill yn chwarae ar yr iard y tu allan i'w hystafell ddosbarth yn y feithrin. Mae'n fan diogel gyda ffens o'i amgylch ac nid oes mynediad o'r tu allan.

Chi yw'r ymarferydd meithrin cynorthwyol.

- Beth fyddai eich pryderon?
- Pa gamau ddylech chi eu cymryd?

## Astudiaeth achos 3:

Rydych chi'n warchodwr plant ac yn gofalu am Gethin sy'n saith oed. Rydych yn ymwybodol ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn y gorffennol. Mae'n aflonydd iawn cyn cael cwsg bach ac mae am i chi eistedd gydag ef nes iddo fynd i gysgu.

- Beth fyddai eich pryderon?

- Pa gamau ddylech chi eu cymryd?

Byddech yn pryderu oherwydd eich bod yn ymwybodol o effaith y gamdriniaeth a brofodd yn y gorffennol. Er hynny, mae'n bwysig i Gethin ei fod yn cael y sicrwydd y gallwch eistedd gydag ef nes iddo fynd i gysgu.

Byddai angen i chi ystyried sut rydych yn eistedd gydag ef a bod camau priodol yn cael eu cymryd bob amser.

## Astudiaeth achos 4:

Mae Lydia yn 11 oed ac yn mynychu ysgol breifat. Mae ei thad yn ymgynghorydd ar y galon ac mae ei mam yn ddeintydd. Mae gan Lydia bob dim sydd ei angen arni. Mae ganddynt dŷ hyfryd gyda stablau, pwll nofio dan do ac ystafell gemau, ond nid oes gan Lydia neb i'w rhannu gyda nhw. Maen nhw'n byw yng nghefn gwlad, bron awr i ffwrdd o'r ysgol a'r dref agosaf.

Mae Lydia yn cael gwahoddiad i fynd i dŷ ei ffrind Chloe ar ôl ysgol i gael pizza a gwylio ffilm. Bydd pum merch arall yno. Mae Lydia'n gyffrous iawn ac yn awyddus i fynd. Nid yw'n aml yn cael ei chynnwys yn eu gweithgareddau ar ôl ysgol gan nad oes modd iddi hi wahodd unrhyw un i'w thŷ hi, gan fod ei rhieni'n gweithio oriau hir.

Mae rhieni Lydia yn gwrthod y cynnig ac yn dweud wrthi y bydd angen iddi ddod adref yn syth o'r ysgol fel arfer i wneud ei gwaith cartref am nad yw ei rhieni'n rhydd i'w chasglu'n ddiweddarach neu fel arall bydd yn tarfu ar y drefn ddyddiol.

Mae rhieni Lydia'n gosod rheolau llym, maen nhw'n rhwystro pobl o'r tu allan rhag dod i'r tŷ a Lydia rhag gwneud ffrindiau agos. Maen nhw'n gosod disgwyliadau uchel arni, gan gredu na fydd hi'n hapus oni fydd yn eu dilyn i yrfa debyg. Fodd bynnag, maen nhw'n esgeuluso Lydia trwy eu habsenoldeb a thrwy fethu â gwneud ei datblygiad cymdeithasol yn flaenoriaeth. Mae digon o arian ond dim digon o gariad.

- Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar Lydia?

- Beth allai fod wedi bod yn gyfaddawd?

- Sut bydd hyn yn effeithio ar berthynas Lydia â'i ffrindiau ysgol?

Mae'n amlwg y bydd yn gwneud i Lydia deimlo ei bod wedi'i gadael allan o'i grŵp o ffrindiau a'i gwahanu. Gallai hyn arwain at fwlio Lydia a fyddai â goblygiadau mwy. Mae angen cyfaddawd yn y sefyllfa hon a allai olygu bod Lydia'n mynd i dŷ Chloe am ddwy awr ac yna mynd adref i wneud ei gwaith.

## Astudiaeth achos 5:

Mae Daniel yn byw gyda'i fam Dawn mewn fflat un ystafell wely. Cafodd Dawn ddamwain flynyddoedd lawer yn ôl sy'n golygu na all weithio. Mae Daniel yn gofalu am Dawn pan nad yw yn yr ysgol. Mae'n

cysgu yn y lolfa ar y soffa. Maen nhw'n cael eu bwyd yn bennaf o'r banc bwyd. Nid oes gan Daniel lawer o amser yn y bore i'w gael ei hun yn barod cyn iddo fynd i'r ysgol. Maen nhw hefyd ar fesurydd dŵr felly nid yw am ddefnyddio gormod o ddŵr. Nid oes unrhyw un yn ysgol Daniel yn ymwybodol o'r sefyllfa. Mae wedi bod â gormod o gywilydd i hyd yn oed ymddiried yn ei athro.

Rwy'n gynorthwyydd yn ei ddosbarth yn yr ysgol, a digwydd i mi glywed... Pan oedd yn yr ysgol yr wythnos diwethaf clywodd ddwy ferch yn ei ddosbarth yn dweud bod yna ychydig o arogl annymunol arno a bod ei wallt bob amser yn edrych yn seimllyd. Yn anffodus, mae hyn yn wir. Dydw i ddim yn meddwl bod Daniel wedi dweud wrth unrhyw un ond dwi'n poeni am ei fywyd gartref. Rwy'n gynorthwyydd cymorth ystafell ddosbarth.

- Beth yw goblygiadau hyn i Daniel?

- Sut gallech chi gefnogi Daniel?

Mae hon yn amlwg yn sefyllfa anodd a dwys iawn i Daniel. Dylech ei gefnogi a siarad â'r ysgol. Byddai hefyd yn syniad da i chi geisio cael rhywfaint o gymorth ychwanegol a gofalwyr i ofalu am ei fam. Byddai angen ichi siarad ag ef am hyn yn gyntaf oherwydd byddai'n codi ofn arno. Gyda thact, efallai y byddai'n ymateb yn dda pe bai'n cael cynnig ymarferol o rywfaint o sebon a thywel, a defnydd o'r ystafelloedd newid pan nad oes neb arall o gwmpas.

## Astudiaeth achos 6:

Mae Lucy yn saith oed. Nid yw ar y cyfryngau cymdeithasol ond mae'r ddwy fam. Ganed Lucy fel baban rhoddwr sberm i ddwy fam sydd mewn priodas lesbïaidd.  Maen nhw'n deulu cynnes a chariadus o dri ac mae'n bosib y byddan nhw hyd yn oed yn trio cael babi arall, brawd bach i Lucy.

Postiodd un o'i mamau lun o'r tri ohonynt ar Facebook wrth i Lucy ddathlu ei phen-blwydd.  Roedd erthygl yn ymddangos ynghlwm wrth y ddolen a oedd yn dangos ei bod yn un o'r babanod rhoddwyr sberm cyntaf yng Nghymru. Mae mamau Lucy mewn grŵp cyfryngau cymdeithasol gyda rhai rhieni eraill o'r ysgol.

Fore Llun pan aeth Lucy i'r ysgol, sylwodd fod llawer o sibrwd yn digwydd, roedd ei grŵp arferol o ffrindiau'n ei hanwybyddu ac roedd rhai o'r plant mwy yn siarad am "dykes" a "lesbos" wrth iddi gerdded heibio. Wrth i'w hathrawes dosbarth glywed hyn mae'n gofyn am gael siarad â Lucy

- Beth fyddai eich pryderon chi?

- Pa gamau y dylech eu cymryd?

## Astudiaeth achos 7:

Mae Betsi yn bedair oed. Mae ganddi bedwar clais ar ei braich chwith ac un ar ei choes dde. Sylwodd ymarferydd meithrin Betsi ar hyn a chodi'r mater gyda hi. Cymraeg yw iaith gyntaf Betsi. Gall siarad a deall Saesneg ond nid yn dda iawn.

Dywedodd wrth Sam (yr ymarferydd) ei bod wedi syrthio oddi ar eu ffrâm ddringo yn yr ardd gartref. Pan ddaeth rhieni Betsi i'w chasglu, dywedodd Sam wrthynt ei bod wedi sylwi ar y cleisiau a

dywedodd y fam y byddai'n mynd â hi at y meddyg i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn.

Yn yr apwyntiad nid oedd y meddyg a welsant yn medru'r Gymraeg. Pan oedd y meddyg yn gofyn cwestiynau i Betsi roedd yn rhaid i'r fam gyfieithu a gweithredu fel cyfieithydd.

- Beth fyddai eich pryderon?
- Ydy Betsi'n cael trafodaeth deg gyda'r meddyg?
- Sut gellid gwella'r sefyllfa hon?